CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEDI 21, 2021

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd ar Zoom
Nos Fawrth, Medi 21, 2021 am 7:30 o'r gloch.

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Cynghorwyr: Karen G. Goswell (Cadeirydd), Gerallt Griffith, Llion Rh. William, Geraint Evans, Barry Jones, Huw Evans. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb.

2. Ymddiheuriadau: Peredur Jenkins, Emlyn Roberts, Mordaf Roberts a Meurig Ashton.

3. Datgan diddordeb.

Doedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 20, 2021

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Gorffennaf 20, 2021

Eitem 7.ll. Llythyr ateb (21/7/2021) o'r ymholiad gwnaeth Cyngor Cymuned Llanelltyd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i'r mater. Cafwyd wybod nid oes ganddynt bwerau i symud campervans ymlaen ar eu taith ond maent yn cynghori nhw i ddefnyddio gwersyll pwrpasol. Mae gan Adran Ymgynghoriad Cyngor Gwynedd linc i 'Arolwg Cartrefi Modur' https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dweud-eich-dweud/Ymgynghoriadau-byw/Arolwg-Cartrefi-Modur.aspx Mater i Cyngor Gwynedd yw rhwystro mynediad at y bont ac yn awgrymu i ni gysylltu â sianjones@gwynedd.llyw.cymru

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Mwy o wybodaeth ar:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Newyddion/Datganiadau-ir-wasg/Gorffennaf-2021/Holi-barn-pobl-Gwynedd-am-sut-i-reoli-cartrefi-modur-yn-y-sir.aspx?utm_source=Facebook&utm_medium=social&utm_campaign=Orlo&s=03

Eitem 7.a. Llythyr (26/7/2021) oddi wrth Un Llais Cymru gyda linc i'r cyfarfod. Y siaradwr yw Dirprwy Comisiynydd yr Iaith Gymraeg.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Eitem 12. a., b. Llythyr (12/8/2021) oddi wrth Gwasanaeth Cefn Gwlad, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod maent am osod giât yn lle gamfa ar lwybr wrth Esgairgawr, a rhoi polyn newydd i giât fochyn ar lwybr wrth Penrhiw.

Eitem 7. n. Llythyr (29/8/2021) oddi wrth Mike Owen, Clerc Cyngor Cymuned Ganllwyd. Mae wedi cael gwybod gan Un Llais Cymru mae'n debygol mater i gynghorau mawr yw anghenion cymwysterau clercod.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (28/7/2021) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o gyrsiau am fis Awst.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Gwnaeth Karen G. Goswell cais am fynychu cwrs 'Sgiliau Cadeirio'.

O'r cwrs, cafwyd wybod mae eitem 'Unrhyw eitem arall' ddim i fod ar yr Agenda. Dim ond eitemau sydd ar yr Agenda sydd angen sylw.

b. Llythyr (27/7/2021) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith yn cael ei wneud i 4 giat a 2 gamfa ar lwybrau 97, 99, 110 yn Brithdir. Llwybr 97 – o Bryn-Llinos, llwybr 99 – o Dol-serrau Terrace, llwybr 110 – o Cae-Ceirch.

c. Llythyr (2/8/2021) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd ffordd ddi-ddosbarth ger Dol-Feili, Rhydymain ar gau ar 27/9/2021 i BT Openreach gwneud gwaith ar hyd y ffordd. Mae disgwyl bydd y gwaith wedi ei gwblhau o fewn 1 diwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ch. Llythyr (16/8/2021) oddi wrth YGC, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod maent am drwsio gwely'r afon o dan Bont Rhydymain drwy ail osod cerrig oedd wedi eu symud gan yr afon. Maent hefyd am wneud gwaith cynnal a chadw ar Bont ar Felau. Ni fydd angen cau'r ffordd i wneud y gwaith.

d. Llythyr (16/8/2021) oddi wrth Neuadd Llanfachreth yn dweud bydd yn iawn inni gynnal ein cyfarfod yno.

dd. Galwad ffôn (18/8/2021) oddi wrth Neuadd Brithdir. Y neuadd bydd yn cael ei ddefnyddio a bydd llefydd eistedd wedi cael ei farcio allan.

e. Llythyr (23/8/2021) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Rhyd-y-main yn rhoi y rheolau gyda beth sydd ei ddisgwyl gan yr aelodau.

Anfonwyd llythyr (31/8/2021) i Neuadd Rhyd-y-main yn rhoi gwybod iddynt ni fydd cyfarfod y Cyngor mis Medi yn y Neuadd oherwydd effaith y Covid yn yr ardal.

f. Llythyr (23/8/2021) oddi wrth Un Llais gyda manylion cyrsiau fydd ym mis Medi.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ff. Llythyr (23/8/2021) oddi wrth Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd. Maent am gysylltu gyda sefydliadau ar draws Gwynedd i drafod materion i wella economi, amgylchedd, cymdeithas a diwylliant. Maent am ddechrau trwy gael cyfarfod rhithiol gydag aelodau cyngorau cymuned neu rhai o'r aelodau; y nhw sydd yn adnabod sefydliadau bydd â diddordeb yn y mater. Derbyniwyd copiau o 'Ein ardal Ni 2035 Dalgylch Dolgellau'.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

g. Llythyr (25/8/2021) oddi wrth Llywodraeth Leol, Caerdydd yn ymwneud á ymgynghoriad sydd ar drethi lleol ar gyfer ail gartref a llety hunanarlwyo. Maent angen sylwadau erbyn 17 Tachwedd 2021.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

h. Llythyr (31/8/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd ar Medi 8, 2021 am 7.00yh trwy Star Leaf. Thema y cyfarfod fydd Tai, cartrefi fforddiadwy ac ail gartref. Amgáu mae Agenda, Cofnodion 28/7/2021, Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 28/7/2021.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Llythyr (31/8/2021) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion Star Leaf.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

i. Llythyr (8/9/2021) oddi wrth Comisiwn Ffiniau i Gymru gydag adroddiad Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholiadau Senedd newydd Cymru 2023. O'r adroddiad, bydd cymunedau Brithdir a Llanfachreth, Ganllwyd, a Llanelltyd yn uno.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

j. Derbyniwyd copi o lythyr (14/9/2021) anfonwyd gan HilaryGrace, Gwernarw, Rhydymain i Priffyrdd yn rhoi gwybod iddynt i wella gwyneb y ffordd o dŷ Mr a Mrs D. Abbot.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/54/580. Gosod tank nwy 1200L LPG ar gyfer defnydd domestig. Gadlas, Brithdir. LL40 2SA

Penderfynwyd cefnogi'r cais (4/8/2021).

b. Cais cynllunio NP5/54/LB226B. Cais ôl-weithredol i dynnu ffenest ddormer a'i amnewid am ffenestr do math cadwraeth a gwaredu ffenest do na sydd mewn defnydd. Tŷ Cerrig, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

c. Cais cynllunio NP5/54/LB226C Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer atgyweirio fframiau ffenestri hanesyddol. Ffenest newydd ffrâm bren tu ôl i ffrâm ffenest hanesyddol. Gwaith atgyweirio rhaniadau pren mewnol ac ychwanegu insiwleiddio mewnol. Gosod system wresogi ffynhonnell daear newydd a gwaith trin carthion. Tŷ Cerrig, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (19/8/2021) oddi wrth Lywodraeth Cymru angen i ni gwblhau ffurflen 'Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Datganiad Blynyddol.

Anfonwyd y wybodaeth iddynt (19/8/2021).

b. Llythyr (23/8/2021) oddi wrth Neuadd Rhydymain yn diolch am ein rhodd o £600.

c. Llythyr (23/8/2021) oddi wrth HSBC UK yn rhoi gwybod bod newidiadau yn cael ei wneud i'n cyfrif o Dachwedd 1, 2021. Mae amryw o newidiadau a hwyrach bydd rhai yn effeithio y Cyngor.

ch. Llythyr (25/8/2021) oddi wrth Adran Cyllid, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd £6,000.00 (praesept) yn ein cyfrif banc o fewn 3 diwrnod.

d. Bil (26/8/2021) am £30.00 oddi wrth Un Llais Cymru. Taliad tuag at bresenoldeb Karen ar y cwrs Sgiliau Cadeirio.

Penderfynwyd talu'r bil.

dd. Bil (9/9/2021) am £174.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd. Taliad tuag at gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer cyfrifon 2020/2021.

Penderfynwyd talu'r bil.

e. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Gorffennaf 2021: £1,141.36.
Balans yn y banc ar 29 Gorffennaf 2021: £6,023.70. (29/7/2020: £3,947.46).

f. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Awst 2021: £1,141.37.
Balans yn y banc ar 29 Awst 2021: £11,895.90. (29/7/2020: £8,223.02).

9. Archwilio

a. Llythyr (18/8/2021) oddi wrth Archwilio Cymru angen eglurhad ar ddryswch lleoliad costau'r Clerc yn ein hadroddiad cyfrifon.

Rhoddwyd y wybodaeth iddynt (23/8/2021. Dechreuwyd y dryswch gan ein Archwilydd Mewnol yn 2018-2019 gan symud y costau o 'Staff' i 'Gweinyddu'. Roeddwn wedi gwneud camgymeriad yn adroddiad Cyfrifon 2020-2021 trwy roi 2020-2021 yn lle 2019-2020 yn eitem costau y Clerc.

b. Lythyr (26/8/2021) oddi wrth Archwilio Cymru yn angen fwy o wybodaeth ar gostau 'Staff' a 'Cyfanswm costau eraill' am 2019-2020 a 2020-2021.

Rhoddwyd y wybodaeth iddynt (27/8/2021). Mae'r wybodaeth maent ei angen yn mynd yn braidd yn gymleth.

10. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Llythyr (24/7/2021) oddi wrth Peredur Jenkins i'w anfon ymlaen i'r aelodau. Llythyr yn rhoi linc i wefan Cyngor Gwynedd i ymateb eu hymgynghori cyhoeddus ynglŷn â sut i wella rheoli 'chartrefi modur yng Ngwynedd'. Disgwylir i'r aelodau ymateb.

b. Anfonwyd llythyr (17/8/2021) i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn holi beth yw'r diweddariad ynglŷn â'r gwaith sydd yn cymryd lle ar Ffordd Lefel. Mae trigolion y Cwm yn bryderus iawn am yr oedi.

Llythyr ateb (7/9/2021) yn dweud roedd oedi ar ran Adran YGC i gael deunyddiau o'r 'galvansers' ond maent eu disgwyl dechrau wythnos 13/9/2021 a dechrau ar y safle. Bydd y gwaith yn cymryd tua 3 wythnos yw cwblhau.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

11. Unrhyw fater arall

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae angen torri gordyfiant ar ffordd sy'n mynd heibio Tyddyn Du a Caepoeth, Hermon.

b. Mae ambell i ddamwain wedi digwydd ar ffordd A494 rhwng yr Hen Ffatri Laeth a Dolddeuli yn ddiweddar oherwydd goryrru.

c. Gyda thrafferth cafodd lorri i droi o'r A494 i Bryncoedifor a chael anhawster croesi'r bont, mae'n debygol bod SatNav yn rhoi arweiniad anghywir.

ch. Penderfynwyd rhoi gwybod i Warden Cŵn, Cyngor Gwynedd mae angen arwydd yn rhybuddio bobol i gasglu eu baw cŵn ar y llwybr sy'n mynd heibio Neuadd Llanfachreth.

Llofnod: Dyddiad: